Llais Defnyddwyr Cymru | Consumer Focus Wales

Cynllun Blynyddol 2011/12

Llais Defnyddwyr Cymru sy'n hyrwyddo buddiannau defnyddwyr yng Nghymru:

Llais annibynnol cryf yn pledio achos dinasyddion Cymru

I gael gwybod mwy am unrhyw un o'r darnau gwaith hyn, cysylltwch â Llais Defnyddwyr Cymru ar

029 2078 7100 neu cyswlltcymru@consumerfocus.org.uk
twitter: @llaisdefnyddwyr

Rhagair gan

Viv Sugar
Cadeirydd
Llais Defnyddwyr Cymru

Mae mwy o angen nag erioed am lais cryf ar gyfer defnyddwyr yng Nghymru, mewn cyfnod economaidd mor gythryblus.

Er y ceir llawer o drafod o hyd ynglŷn â dyfodol Llais Defnyddwyr Cymru, ni fydd hyn yn tynnu ein sylw. Mae yma lai o staff oherwydd toriadau i'r gyllideb, ond rydym yn parhau i fod yn frwd ynglŷn â defnyddio ein pwerau a'n harbenigedd er lles defnyddwyr Cymru.

Ar ôl ymgynghori ag amrywiaeth eang o randdeiliaid a defnyddwyr, rwy'n hyderus y bydd y gwaith trwyadl, effeithiol a phwysig a gyflawnwyd ers ein sefydlu yn parhau am y 12 mis nesaf, a thu hwnt o bosibl.

Bydd ein gwaith eleni yn gryf yn y meysydd lle y mae gennym gyfrifoldeb statudol: ynni a phost. Ond byddwn hefyd yn parhau'n weithgar mewn meysydd eraill lle y credwn y gallwn wneud gwahaniaeth.

parhad ar y dudalen nesaf

Mae'r rhain yn cynnwys hylendid bwyd – lle y byddwn yn parhau i ymgyrchu i'w gwneud yn orfodol i sefydliadau arddangos tystysgrifau hylendid bwyd. Byddwn hefyd yn parhau i alw am weithredu ym maes cynhwysiant ariannol a digidol, ac i weithio â'n partneriaid yn y Gynghrair Tlodi Tanwydd er mwyn dileu'r pla hwn ar ein cymdeithas.

Mae gwaith ar y gweill hefyd i sicrhau bod deddfau newydd ar yr iaith Gymraeg yn adlewyrchu anghenion a dymuniadau defnyddwyr – a gaiff eu hanwybyddu'n aml yn y ddadl rhwng ymgyrchwyr iaith a darparwyr gwasanaethau.

Lle bynnag y mae ar ddefnyddwyr a dinasyddion agored i niwed angen rhywun i bledio'u hachos, byddwn ni yno.



Rhestrir drosodd y 15 prosiect y rhoddir blaenoriaeth iddynt yn 2011/12, ond gall amgylchiadau newid, ac addasir y gwaith yn ôl yr angen.

Ynni

Defnyddwyr heb gysylltiad â'r prif gyflenwad nwy II: Byddwn yn darparu tystiolaeth benodol ynglŷn â Chymru ar gyfer astudiaeth y Swyddfa Masnachu Teg yn dilyn ein hadroddiad y llynedd ar ddefnyddwyr heb gysylltiad â'r prif gyflenwad nwy.

Newid Cyflenwyr yng Nghymru: Byddwn yn cyhoeddi adroddiad yn casglu gwybodaeth ynghyd ynglŷn â newid cyflenwyr ynni, a pham mae cyn lleied o bobl mewn rhannau o dde Cymru yn newid cyflenwyr.

Cyngor ar brynu olew: Byddwn yn grymuso defnyddwyr trwy gyhoeddi rhestr o ganllawiau, ac yn llunio taflen fanwl yn cynghori defnyddwyr olew gwresogi sut i gael y fargen orau trwy brynu llawer ar y tro.

Sector Rhentu Preifat: Byddwn yn ystyried materion ynni mewn sector lle y mae cyfran uwch o ddefnyddwyr yn byw mewn tlodi tanwydd er mwyn gweld beth ellid ei wneud i'w cynorthwyo a'u grymuso.

Plant mewn Tlodi Tanwydd: Gan adeiladu ar waith blaenorol gyda Phlant yng Nghymru, byddwn yn dosbarthu posteri dwyieithog i bob ysgol yng Nghymru yn dangos awgrymiadau plant ar sut i aros yn dwym yn ystod y gaeaf.

Post

Hygyrchedd swyddfeydd post: Gan weithio gyda'r RNIB a'r RNID, bydd ein hymchwil yn ystyried y rhwystrau a wynebir gan bobl â nam ar y synhwyrau wrth geisio defnyddio gwasanaethau mewn swyddfeydd post.

Gwasanaethau'r llywodraeth a swyddfeydd post: Bydd y prosiect hwn yn casglu gwybodaeth am y modd y mae awdurdodau lleol yn defnyddio rhwydwaith y swyddfeydd post i ddarparu gwasanaethau, gan rannu arfer gorau a dealltwriaeth o'r manteision i ddarparwyr a defnyddwyr.

Rhwydwaith addas i ddefnyddwyr: Byddwn yn edrych ar fodel newydd y Swyddfeydd Post 'Lleol', goblygiadau hynny i ddefnyddwyr yng Nghymru.

Dosbarthu parseli: Pwnc llosg yn ein grwpiau ffocws. Bydd ein hymchwil yn ystyried sut y mae pobl yn derbyn parseli, beth sy'n digwydd pan nad ydynt gartref, ac anawsterau trefnu casgliadau.

Cwynion i'r Post Brenhinol: Sut rydych chi'n cwyno? Ac a fyddwch chi'n cael eich bodloni? Dyma'r cwestiynau y byddwn yn eu hystyried yn y prosiect hwn, gan weithio gyda chydweithwyr ledled Prydain.

Grymuso defnyddwyr

Cartrefi Parc: Byddwn yn gweithio i amddiffyn hawliau trigolion cartrefi parc, a sicrhau bod trigolion a pherchenogion catrefi parc yn deall yr hawliau hynny'n well.

Cwynion i Gymdeithasau Tai: Gwelwyd yn ein grwpiau ffocws bod llawer o bobl yn anfodlon ar brosesau cwyno. Byddwn yn gweithio i rymuso tenantiaid a gwella gweithdrefnau.

Diogelwch bwyd: Byddwn yn parhau i hybu bwyd mwy diogel yng Nghymru, gan gynnwys y rheidrwydd i arddangos graddau hylendid bwyd.

Yr iaith Gymraeg: Byddwn yn parhau â'n gwaith i sicrhau bod y Comisiynydd newydd, a'r safonau a hyrwyddir ganddo, yn adlewyrchu anghenion a dymuniadau defnyddwyr.

Cardiau Hawliau Siopwyr: Byddwn yn gweithio gyda Safonau Masnach Cymru i hybu ymwybyddiaeth o hawliau defnyddwyr trwy ddosbarthu cardiau gwybodaeth y gellir eu cadw mewn waled.

I gael mwy o wybodaeth am unrhyw ran o'n gwaith, cysylltwch â ni ar **cyswlltcymru@consumerfocus.org.uk** neu 029 2078 7100